

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Flint Dental Centre, 110 Stryd yr
Eglwys, Y Fflint

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 3 Mehefin 2019

Dyddiad cyhoeddi: 4 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	23
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Y Fflint yn 110 Stryd yr Eglwys, Y Fflint, CH6 5AF, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 3 Mehefin 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gan gynnwys un arweinydd, ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt. Roedd yr amgylchedd yn ddymunol iawn, yn lân ac yn daclus, a gwelwyd bod pob aelod o'r staff yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig iawn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

Roedd y practis yn cael ei reoli'n dda, ond nodwyd gennym y gellid gwella cyfathrebu a gwaith cynllunio yn y tîm o staff drwy sefydlu cyfarfodydd staff ffurfiol a rheolaidd.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith ac yn cyd-fynd â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol.

Nodwyd gennym bod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth ac arweiniad i gleifion mewn perthynas â'u triniaeth a gwelwyd tystiolaeth bod cleifion yn fodlon iawn ar y driniaeth a'r gwasanaethau a gawsant.
- Gwelwyd bod y staff yn wybodus ac yn ofalgar iawn.
- Roedd y ddeintyddfa'n cynnwys offer priodol ac roedd lân iawn yr olwg, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau o safon uchel iawn.
- Roedd cyfarfodydd sgrym (cyfarfodydd tîm anffurfiol) yn cael eu cynnal yn rheolaidd.
- Roedd prosesau atal heintiau'n drefnus iawn.
- Gwelwyd bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) at safon radorol.
- Gwelwyd bod y polisïau a'r gweithdrefnau'n dda iawn. Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael a darparu rhagor o wybodaeth ddwyieithog i gleifion.
- Roedd angen adolygu'r asesiadau risg er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn benodol i'r practis ac yn gyson â'r canllawiau cenedlaethol.
- Sefydlu cyfarfodydd staff ffurfiol bob mis i drafod digwyddiadau, pryderon, diweddariadau i bolisiau ac i rannu gwersi.
- Gwella trefniadau diogelwch yng nghefn y practis.
- Cofnodi ac archwilio gweithgarwch ymarferion tân.
- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.
- Sefyglu cofnod cwynion er mwyn cofnodi a monitro canlyniad cwynion a digwyddiadau, a npdi eu bod wedi cael eu cwblhau.
- Rhoi rhaglen archwilio realistig ar waith a rhoi dyletswydd ar aelod priodol o'r staff i'w goruchwyllo.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Flint Dental Centre yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Y Fflint. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un Deintydd, tair Nyrs Ddeintyddol, un Rheolwr Practis, sydd hefyd yn nyrs Ddeintyddol ac un Derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Flint Dental Centre yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol iawn, a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig iawn.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion, a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu sylwadau am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'.

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff bob amser yn hapus, yn hawdd mynd atynt ac yn barod i helpu. Rwyf bob amser wedi gallu trefnu apwyntiad yn gyflym ac mae'r deintydd bob amser yn fy helpu i ymlacio. Rwyf bob amser yn gadael â gwên ar fy wyneb"

"Deintydd cymwynasgar a phroffesiynol iawn. Esboniodd bob cam o'r broses"

"Practis glân iawn ac mae'r staff bob amser yn gwrtais ac yn broffesiynol ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r cleifion"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

“Mae popeth yn wych, byddai Wi-Fi am ddim yn dda”

“Byddai'n braf cael trefnu neu newid apwyntiadau ar-lein”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol yn y cyntedd, y dderbynfa a'r ardal aros, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thaflenni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg. Fodd bynnag, roedd rhai posteri hybu iechyd yn y cyntedd wedi'u gosod i fyny'n uchel iawn gan ei gwneud hi'n anodd eu gweld.

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi dweud wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn yr ardal aros a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Roedd arwydd 'Dim Smygu' i'w weld ger y brif fynedfa a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â deddfwriaeth mangreoedd di-fwg¹.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried gostwng rhai o'r posteri hybu iechyd yn y cyntedd er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu eu gweld.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Dywedodd y staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat â chlaf, y byddent yn cynnig mynd ag ef i ystafell ar wahân er mwyn cynnal y sgwrs yno. Fodd bynnag, nid oedd y cleifion yn gwbl ymwybodol o'r trefniant hwn. Argymhellwyd y dylid arddangos poster yn y dderbynfa a'r ystafell aros i roi gwybod i gleifion bod y dewis hwn ar gael.

Nodwyd gennym bod naw Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol² ar gael i gleifion, ar gais, yn y dderbynfa ac roeddent hefyd wedi'u harddangos yn yr ystafell aros a phob un o'r deintyddfeydd. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid creu poster i roi gwybod am yr opsiynau sydd ar gael i gleifion pe bai angen iddynt gael sgwrs breifat.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny. Lle y bo'n briodol, gwnaethant ddweud hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a dywedodd y cleifion fod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r dderbynfa a'r ardal aros. Roedd gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei hadolygu'n flynyddol, ac roedd ar gael yn y dderbynfa. Roedd y daflen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Fodd bynnag, nid oedd fersiwn Gymraeg ar gael. Serch hyn, dywedodd Rheolwr y Practis wrthym ei bod hi a'r staff yn ymwybodol o Linell Gyfieithu'r Bwrdd Iechyd pe bai angen defnyddio'r gwasanaeth. Nid oedd opsiwn ychwaith i'r wybodaeth fod ar gael yn braille os oedd angen. Fodd bynnag, roedd dolen sain ar gael yn y dderbynfa a oedd yn gweithio.

² <https://standards.gdc-uk.org/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cyfieithu'r daflen i gleifion i'r Gymraeg a dylid sicrhau ei bod ar gael yn hawdd i gleifion.

Dylid ystyried opsiynau ar gyfer ffyrdd eraill o gyfathrebu, megis braille.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Nid oedd y practis yn gweithredu gwasanaeth dwyieithog. Er bod rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg yn unig roedd y wybodaeth hon gan amlaf. Gan fod y gwasanaeth yng Nghymru, dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'³

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd gwybodaeth yn nodi sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis.

³ Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano. <https://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi a chaniatáu iddo aildrefnu apwyntiad, os oedd angen.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac, ar y cyfan, roeddent yn fanwl iawn ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nid oedd pob opsiwn triniaeth bob amser wedi'i gofnodi a gofynnwyd am gydsyniad i driniaeth ar sail ad hoc.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Er mwyn sicrhau cofnodion cyson, caiff y staff clinigol eu hannog i gofnodi opsiynau triniaeth a chydsyniad i driniaeth ar gofnodion y cleifion bob amser.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg. Roedd hyn hefyd yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymïadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ceir mynediad i'r practis drwy stepen goncrit a chanllaw cynorthwyol (mae ramp ar gael os oes angen). Mae'r cyfleusterau clinigol ar y llawr cyntaf. Mae'r llawr gwaelod yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd drwy'r fynedfa gefn a'r fynedfa flaen, ac mae cloch drws i gleifion ofyn am gymorth gan y staff.

Ni all defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i'r ddeintyddfa, ond gwneir trefniadau priodol i gyfeirio'r rhai sydd angen gofal deintyddol at y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cadarnhawyd o'r holiaduron cleifion bod y '*Staff bob amser yn hapus, yn hawdd mynd atynt ac yn awyddus i helpu*'. Rhannodd un claf y sylwadau canlynol:

"Rwyf bob amser wedi gallu trefnu apwyntiad yn gyflym ac mae'r deintydd bob amser yn fy helpu i ymlacio. Rwyf bob amser yn gadael â gwên ar fy wyneb"

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith a oedd yn cydymffurfio â chynllun Gweithio i Wella y GIG⁴. Roeddem yn fodlon bod y practis yn rhoi'r polisi hwn ar waith yn briodol.

Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn y dderbynfa/ardal aros. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd. Roedd poster Gweithio i Wella yn cael ei arddangos ac roedd taflenni hefyd ar gael o'r dderbynfa ar gais.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis systemau i gofnodi unrhyw gwynion a gyflwynwyd, eu monitro ac ymateb iddynt. Ar adeg yr arolygiad, ni fu unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ond roedd gan y practis gofnod cwynion a oedd yn barod i'w ddefnyddio os oedd angen.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi bod ar waith ers 2008, ond dim ond yr wythnos cyn yr arolygiad yr oedd y practis wedi dechrau dyddio'r holiaduron. Dywedodd y practis y byddai'r newid hwn yn helpu gyda'r gwaith o ddadansoddi, dysgu a rhoi adborth i gleifion. Yn y gorffennol, casglwyd adborth ar gardiau sylwadau Deoniaeth Cymru mewn blwch sylwadau yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y cleifion yn cwblhau'r rhain yn aml. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau y caiff adborth ei rannu â thîm y practis ac arddangos dadansoddiad o unrhyw adborth yn yr ardal aros, er mwyn dangos i gleifion bod y clinig yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir, a chytunodd i wneud hyn.

⁴http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn gyson â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod offer a phrosesau dihalogi yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Roedd y broses o gadw cofnodion o safon dda.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân iawn, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg.

Roedd y grisiau i fyny i'r ddeintyddfa yn gul iawn, ac roedd y man cerdded yn llai oherwydd bod troad ar dop y grisiau. Fodd bynnag, dywedodd y practis fod

Bwrdd Iechyd Lleol Y Fflint wedi asesu hyn yn 2008, ac wedi argymhell y dylid gosod canllawiau ar y ddwy ochr i fyny'r grisiau ac y dylid darparu gorchudd gwrth-lithr ar y llawr. Dywedwyd wrthym fod yr asesiad wedi cael ei gynnal oherwydd digwyddiad lle roedd claf wedi cwmpo i lawr y grisiau. Aethpwyd i'r afael â'r asesiad a'r argymhellion a wnaed gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), ond argymhellwyd y dylid trefnu asesiad HSE arall er mwyn sicrhau bod y risg o lithro, baglu a chwympo wedi'i lleihau'n ddigonol.

Yn ystod ein hamser yn y practis, gwelsom y staff yn gofyn i gleifion a oedd angen cymorth arnynt gyda'r grisiau, a oedd yn unol â'r gweithdrefnau a oedd ar waith.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Roedd digon o doiledau ar gael at ddefnydd y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau ac roeddent yn ymddangos yn lân iawn.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Rheolwr y Practis oedd y Swyddog Tân, a oedd yn gweithio'n dda yn y practis am ei bod yn monitro risgiau'n ddyddiol.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy, ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos yn y practis. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi, ond roedd y rhain yn cael eu cofnodi ar boster wedi'i lamineiddio a oedd ond yn cofnodi'r ymarferion tân diwethaf. Golygai hyn nad oedd unrhyw dystiolaeth hanesyddol o'r ymarferion tân a gynhaliwyd.

Gwelsom fod nifer o bolisïau ar waith mewn perthynas â rheoli'r safle, gan gynnwys polisi Iechyd a diogelwch, a pholisïau ar gyfer defnyddio cyfarpar. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno'n glir mewn ffeiliau gyda mynegai trefnus. O edrych ar bob un o'r polisïau, nodwyd eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u llofnodi gan bob aelod o'r staff i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Roedd rhai asesiadau risg ar gael yn hawdd i'w hadolygu. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod yr asesiadau risg yn gyffredinol ac nad oeddent yn rhoi digon o fanylion i sicrhau bod protocolau clir ar gyfer cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Argymhellwyd y dylai'r practis adolygu ei asesiadau risg yn llawn er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn benodol i'r practis ac yn gyson â'r canllawiau cenedlaethol.

Roedd mynediad hawdd ar gael i gleifion drwy ddrws cefn y practis. Dywedwyd wrthym fod y drws ar glo gan amlaf, ond gwelwyd nad oedd y drws wedi cloi ar

yr achlysur hwn. Gwnaethom gynghori y dylid adolygu a chynnal asesiad risg ar ddiogelwch y fynedfa hon er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y practis gloch drws hygyrch, felly byddai hyn yn cael ei ystyried yn ystod yr asesiad risg.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Yn ystod yr arolygiad, nodwyd bod eitemau megis modelau gypswm a dannedd yn cael eu gwaredu yn y cynhwysyddion cywir.

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol mewn cwpwrdd wedi'i gloi.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002⁵, mae angen i gyflogwyr naill ai leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd, neu ei atal yn gyfan gwbl. Cadarnhaodd y practis ei fod yn defnyddio mercwri, ac roedd asesiad COSHH a phecyn gollwng mercwri ar gael. Roedd pob aelod o'r staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r pecyn hwn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) ar gyfer eitemau trydanol bach yn gyfredol, er mwyn helpu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom hefyd fod tystysgrifau cyfredol ar waith ar gyfer gwasanaethu'r boeler nwy a'r gwifrau trydanol i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd gan y practis bolisi dadebru ar waith a gwelsom fod y staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/dadebru brys. Roedd gan y practis un swyddog cymorth cyntaf a oedd wedi cael hyfforddiant llawn; sef deintydd, a olygai ei bod ar gael bob amser pan oedd y practis ar agor.

Roedd y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru'n cael eu cofnodi a'u gwirio'n rheolaidd, ac roedd yr holl stoc yn gyfredol.

⁵ http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis greu cofnod tân cynhwysfawr at ddibenion trywydd archwilio, yn ogystal â chadw cofnod o ddyddiadau hyfforddiant tân.

Dylid diwygio'r asesiadau risg yn unol â hyfforddiant Asesiad Risg AaGIC. Dylid cynnal asesiadau risg.

Dylai'r practis ofyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymweld â'r gwasanaeth eto ac asesu'r grisiau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r addasiadau a argymhellwyd yn flaenorol.

Dylid cynnal asesiad risg ar fynedfa gefn yr adeilad er mwyn lleihau risgiau diogelwch i gleifion a staff.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol yn y ddeintyddfa segur i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁶. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus ac yn glir rhag rhwystrau ac roedd yn cynnwys offer priodol.

Gwelwyd bod y trefniadau dihalogi'n foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi a gwelsom y canlynol:

- Sinc bwrpasol i olchi dwylo
- Roedd yr offer a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint

⁶ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

- Roedd cynwysyddion storio offerynnau yn gryf â chaeadau diogel arnynt.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal bob chwe mis gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Cydnabuwyd bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd gan y practis raglen cynnal a chadw ddyddiol er mwyn gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnod ar gael ar gyfer yr awtoclaf⁷ a gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Roedd polisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa

⁷ Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio ager dirlawn pwysedd uchel

weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddigwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisïau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y practis wedi nodi aelod o staff i arwain ar faterion diogelu, sef y deintydd/perchennog, a oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn ac am roi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion diogelu.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁸ ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Gwnaethom gadarnhau fod gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd polisi ar waith sy'n nodi'n glir bod angen cynnal gwiriad DBS a chael gafeael ar ddau eirdd ar gyfer cyflogaion newydd.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol a gwelsom fod y ddeintyddfa yn cynnwys cyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion. Roedd y ddeintyddfa'n drefnus, yn lân ac yn daclus iawn.

⁸ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cwblhau archwiliadau radiograffig helaeth bob chwarter, ac roedd yr archwiliadau o safon ragorol.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁹ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)¹⁰ 2000, gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Roedd biniau cyfarpar miniog ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd, yn yr un modd â biniau gwastraff clinigol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, megis hylendid dwylo, croes-heintio, gwastraff, nodiadau clinigol ac ansawdd pelydr-X. Cawsom wybod hefyd fod cynlluniau ar waith i gwblhau archwiliad ar adborth cleifion ar ôl i'r broses hon gael ei sefydlu'n llawn.

Cawsom sicrwydd ar lafar bod y canllawiau a'r hysbysiadau diogelwch yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn y practis ond ni chafwyd unrhyw sicrwydd ffurfiol bod hyn yn digwydd, megis tystiolaeth o drafod hyn mewn cyfarfodydd tîm.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal cyfarfod tîm bob mis sydd ag agenda benodol a dylid cymryd nodiadau o'r cyfarfodydd hynny.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

⁹ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Wrth drafod â'r staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wrthi'n defnyddio adnoddau datblygu practisau, megis Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru¹¹ a Chanllaw Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain¹². Cadarnhawyd hyn hefyd yn nogfennaeth y practis a archwiliwyd gennym.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copïau papur o ffeiliau'n cael eu storio'n ddiogel a'u cloi mewn cabinet ffeilio pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Nodwyd gennym bod polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff o'r hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud.

Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion y deintydd ei hadolygu. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth o arfer da wrth gadw cofnodion clinigol sy'n dangos, gan amlaf, fod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion. Fodd bynnag, nodwyd y meysydd canlynol y gellid eu gwella:

- Dylid sicrhau cysyniad gwybodus a'i ddogfennu bob amser
- Dylai trafodaethau am risgiau, opsiynau a buddiannau gael eu dogfennu bob amser
- Pan gaiff plant eu gweld, dylai cofnodion bob amser nodi pwy sy'n bresennol gyda'r claf, h.y. Mam neu Dad
- Dylid adolygu canllawiau pelydr-X cyfredol

¹¹ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

¹² <https://www.bda.org/goodpractice>

- Dylai aelod o'r tîm nyrsio gynnal archwiliad pelydr-X er mwyn sicrhau adolygiad annibynnol
- Dylid adolygu'r canllawiau sgrinio clefydau periodontol i smygwyr
- Dylai'r deintydd adolygu canllawiau ar ddogfennaeth er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau – ni chaiff hanes meddygol / iechyd y geg / deiet eu cofnodi bob amser
- Dylid adolygu'r canllawiau rhagnodi gwrthfotigau

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r prif ddeintydd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd tystiolaeth o agwedd gadarnhaol a chefnogol tuag at y staff.

Roedd y staff i' gweld yn hapus iawn yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yr Unigolyn Cyfrifol¹³, sef y prif ddeintydd, sy'n berchen ar y practis deintyddol ac yn ei redeg.

Nodwyd gennym bod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisiâu a gweithdrefnau. Gwelsom

¹³ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

dystiolaeth fod y staff wedi llofnodi amrywiaeth o bolisïau allweddol i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu ac roedd pob un yn amlygu enw'r practis yn briodol.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac roedd yn effeithlon ac yn gymwys yn ei rôl. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers llawer o flynyddoedd, roedd ganddynt berthynas dda iawn â'i gilydd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan bob aelod o'r staff contract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ei ffeil staff. Gwelsom hefyd fod gan y practis raglen sefydlu, a oedd yn cynnwys hyfforddiant a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedodd Rheolwr y Practis fod yr aelodau o'r staff yn gyfrifol am eu holl faterion personnel eu hunain, megis imiwneiddio rhag Hepatitis B, indemniad, cofrestru a'r holl hyfforddiant perthnasol. Er hyn yn arfer rhagorol i'r aelodau unigol o'r staff, tynnwyd sylw'r Rheolwr Ymarfer at y ffaith bod cyfrifoldeb arni fel cyflogwr i sicrhau bod y meysydd hyn yn cael eu cynnal, nad oedd diffygion i'w gweld a bod y staff yn cadw at contractau sydd ar waith yn briodol. Argymhellwyd y dylai Rheolwr y Practis greu cofnod/cofrestr i fonitro cydymffurfiaeth â'r materion hyn.

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd sgrym rheolaidd (cyfarfodydd tîm anffurfiol) ond nid oedd unrhyw gofnodion i ddangos tystiolaeth o hyn. Byddai unrhyw aelod o'r staff a oedd yn methu cyfarfod sgrym yn cael y wybodaeth ddiweddaraf pan fyddent yn dychwelyd.

Er y byddem yn ystyried y cyfarfodydd sgrym dyddiol yn arfer da, nid oedd tystiolaeth bod y practis yn cyfarfod yn ffurfiol er mwyn ystyried materion sy'n effeithio ar y practis cyfan. Byddem yn argymhell y dylid cynnal cyfarfodydd ffurfiol

rheolaidd er mwyn sicrhau bod diweddariadau polisïau, hysbysiadau diogelwch a dysgu yn sgil cwynion / adborth gan gleifion yn cael eu trafod yn llawn a'u cyfleu'n effeithiol i bob aelod o dîm y practis.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff yn y practis.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cynhwysfawr ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y cymwysterau priodol a'u bod yn gymwys i weithio gyda chleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried cadw cofnodi i fonitro hyfforddiant, Cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac imiwneiddio rhag Hepatitis B.

Dylai'r practis gynnal cyfarfod tîm bob mis.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Flint Dental Centre

Dyddiad arolygu: 3 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Flint Dental Centre

Dyddiad arolygu: 3 Mehefin 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis ystyried gostwng rhai o'r posteri hybu iechyd yn y cyntedd er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu eu gweld.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Bydd y rhain yn cael eu gostwng er hwylustod i gleifion.	Rebecca Jubert	Cwblhawyd.
Dylid creu poster i roi gwybod am yr opsiynau sydd ar gael i gleifion pe bai angen iddynt gael sgwrs breifat.	4.1 Gofal ag Urddas	Bydd poster yn cael ei greu i roi gwybod i gleifion bod modd cael sgysiau cyfrinachol os oes angen.	Rebecca Jubert	Cwblhawyd.
Dylid cyfieithu'r daflen i gleifion i'r Gymraeg a dylid sicrhau ei bod ar gael yn hawdd i gleifion.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Byddwn yn trefnu bod y wybodaeth hon yn cael ei chyfieithu.	Yvonne Hopkins	Hydref - Tachwedd 2019.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid ystyried opsiynau ar gyfer ffyrdd eraill o gyfathrebu, megis braille. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'.		Ystyrir ffyrdd eraill o gyfathrebu, megis braille. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael yn Gymraeg.	Yvonne Hopkins Yvonne Hopkins a Rebecca Jubert	Medi - Hydref 2019 Hydref - Tachwedd 2019
Er mwyn sicrhau cofnodion cyson, caiff y staff clinigol eu hannog i gofnodi opsiynau triniaeth a chydsyniad i driniaeth ar gofnodion y cleifion bob amser.	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth	Bydd y deintydd yn sicrhau bod opsiynau triniaeth a chydsyniad i driniaeth yn cael eu cofnodi ar gofnodion y cleifion.	Yvonne Hopkins	Yn syth
Mae'n rhaid i'r practis ddysgu'n rhagweithiol yn sgil adborth a sicrhau y caiff hyn ei hysbysebu ar yr hysbysfwrdd yn y practis.	6.3 Gwrandao a Dysgu o Adborth	Byddwn yn dechrau cofnodi adborth a threfnu bod y canlyniadau'n cael eu hysbysebu ar yr hysbysfwrdd.	Rebecca Jubert	Hydref - Tachwedd 2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis greu cofnod tân cynhwysfawr at ddibenion trywydd archwilio, yn ogystal â chadw cofnod o ddyddiadau hyfforddiant tân.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Byddwn yn creu amserlen hyfforddiant tân a chofnod tân cynhwysfawr.	Rebecca Jubert	Hydref - Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid diwygio'r asesiadau risg yn unol â hyfforddiant Asesiad Risg AaGIC. Dylid cynnal asesiadau risg. Dylai'r practis ofyn i'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch ymweld â'r gwasanaeth eto ac asesu'r grisiau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r addasiadau a argymhellwyd yn flaenorol. Dylid cynnal asesiad risg ar fynedfa gefn yr adeilad er mwyn lleihau risgiau diogelwch i gleifion a staff.		Caiff asesiadau risg eu diwygio a'u cynnal yn unol â AaGIC. Byddwn yn trefnu i arolygiad newydd gael ei gynnal. Byddwn yn trefnu i asesiad risg ar y fynedfa gefn gael ei gynnal.	Yvonne Hopkins a Rebecca Jubert Yvonne Hopkins Yvonne Hopkins a Rebecca Jubert	Hydref - Tachwedd 2019 Erbyn diwedd 2019. Hydref - Tachwedd 2019.
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r canllawiau cyfredol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd y deintydd yn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol a'r canllawiau cyfredol. Bydd yn adolygu unrhyw ganllawiau.	Yvonne Hopkins	Yn syth
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid ystyried cadw cofnodi i fonitro hyfforddiant, Cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac imiwneiddio rhag Hepatitis B. Dylai'r practis gynnal cyfarfod tîm bob mis.	7.1 Y Gweithlu	Caiff cofnodion eu creu ar gyfer cofnodion y staff. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd tîm misol gydag agendâu a chofnodion.	Rebecca Jubert Rebecca Jubert	Hydref - Tachwedd 2019 Yn syth.

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Dr Yvonne Hopkins

Teitl swydd: Deintydd / Perchennog

Dyddiad: 18/07/2019